



# **Polisi - Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

# Polisi'r DBS

## Rheoli Fersiynau

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n rheolaidd yn sgil newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Gellir gweld y fersiynau diweddaraf o'n holl gyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynglŷn â chynnwys y ddogfen hon, rydym yn argymhell eich bod yn edrych ar y fersiwn ddiweddaraf ar y wefan ac ar unrhyw ganllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
1.0	25/02/14	Y Cyngor Llawn	Polisi newydd
1.1	22/05/14	Andrea Malam	Ychwanegu cymal 'Dyletswydd i gyfeirio'
2.0	25/04/18	Andrea Malam	Ailfformatio a diweddu ffurflenni asesu risg lle'r oedd angen newid testun polisi i adlewyrchu teitlau newydd
3.0	22/03/21	Felicity Chandler	Ailfformatio. Wedi'i diweddu i amlinellu: proses ar-lein, system hidlo newydd, deddfwriaeth gyfredol, proses ymgeiswyr trawsryweddol, diwylliant diogelu, geiriad Gov.uk perthnasol.

# Polisi'r DBS

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau .....	2
Cynnwys .....	3
Rolau a Chyfrifoldebau .....	5
Cydlofnodwr arweiniol .....	5
Cydlofnodwr .....	5
Rheolwr recriwtio .....	5
Adnoddau Dynol.....	6
Ymgeiswyr datgelu .....	6
Paramedrau Cyfreithiol .....	8
Mathau o Ddatgeliadau'r DBS a Rhestrau Gwahardd.....	8
Rhestrau Gwahardd / Gweithgarwch Rheoledig .....	9
Pwy sy'n Gymwys? .....	10
Proses Wirio'r DBS .....	11
Camau Proses Wirio'r DBS.....	12
Cam 1 - derbyn a dilysu'r ffurflen gais .....	12
Cam 2 - Chwilio drwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.....	12
Cam 3 - Chwilio drwy restrau gwahardd ar gyfer Plant ac Oedolion (lle bo'n berthnasol) ....	12
Cam 4 - Chwilio drwy gofnodion a ddelir gan yr heddlu .....	12
Cam 5 - Argraffu tystysgrif y DBS .....	13
Beth sy'n cael ei ddatgelu? .....	13

# **Polisi'r DBS**

Recriwtio a Phenodiadau .....	14
Asesiad Risg Cyn Cyflogi.....	15
Datgelu Trosedd DBS .....	15
Staff Presennol - Datgelu Trosedd DBS .....	16
Gwiriadau Tramor .....	17
Ceisiadau Trawsryweddol.....	18
Ailwirio .....	19
Gwasanaeth Diweddaru.....	20
Diogelu Data .....	20
Gwiriadau DBS ar gyfer rhai nad ydynt yn gyflogeion.....	21
Gwirfoddolwyr .....	21
Gweithwyr asiantaeth .....	21
Aelodau (Cynghorwyr) Cyngor Sir Ddinbych .....	22
Llywodraethwyr Ysgol .....	24
Lleoliadau .....	24
Contractwyr Preifat - Gan gynnwys 'Contractwyr Achlysurol' .....	24
Gyrwyr Tacsi .....	25
Dosbarthu Nwyddau i Sefydliaadau'r Cyngor .....	25
Diwylliant Diogelu .....	26

# **Polisi'r DBS**

## **Rolau a Chyfrifoldebau**

### **Cydlofnodwr arweiniol**

- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Sicrhau bod arferion a chydlofnodwyr y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion a'r canllawiau yn unol â Chod Ymarfer y DBS

### **Cydlofnodwr**

- Sicrhau y gwneir cais am y lefel datgelu gywir.
- Sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal ar gyfer cyfnodau'n preswylio y tu allan i'r DU.
- Cydlofnodi ffurflennoi datgelu.
- Gwirio dystysgrifau datgelu a diweddar Trent drwy gynnwys yr wybodaeth ofynnol.
- Rheoli diogelwch dystysgrifau datgelu, defnydd ohonynt a mynediad atynt.
- Bodloni ei hun ynghylch manylion adnabod y sawl sy'n gwneud cais am ddatgeliad.
- Bodloni eu hun fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ddilys ac yn cydymffurfio â gofynion y DBS.

### **Rheolwr recriwtio**

- Gwirio dystysgrif Datgelu ymgeisydd, gwneud copi ac anfon y copi i'r adran Adnoddau Dynol (lle bo ffurflen bapur wedi'i llenwi).
- Gwirio dystysgrifau DBS yr holl gcontractwyr preifat / allanol cyn iddynt gychwyn gweithio ar-safle.
- Trefnu dyddiad dechrau addas ar gyfer y cyflogai newydd yn unol â dychweliad y gwiriad DBS. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw hyn yn bosibl, bydd yn rhaid i'r rheolwr llinell gwblhau asesiad risg arall y bydd angen i'r Pennaeth Gwasanaeth / Pennaeth / Rheolwr Gyfarwyddwr ei awdurdodi.

# **Polisi'r DBS**

- Gwirio gwefan y DBS i fonitro cynnydd tystysgrifau DBS. Os yw gwefan y DBS yn nodi bod y dystysgrif wedi'i hargraffu, bydd yn rhaid i'r rheolwr ofyn am gael gweld copi cyn cychwyn y gyflogaeth.

## **Adnoddau Dynol**

- Adolygu'r polisi a'r dogfennau ategol yn unol â deddfwriaeth ac arfer gorau.
- Cynghori a chefnogi rheolwyr wrth gymhwysol polisi hwn.
- Gwirio'r prawf adnabod a ddarparwyd gan ymgeisydd datgelu a phrosesu'r ffurflen DBS drwy ei hanfon i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Anfon gwaith papur adnewyddu at staff perthnasol pan ddaw'r dystysgrif DBS i ben.
- Lle bo'n briodol, cynorthwyo rheolwyr llinell yn ystod cyfarfodydd ffurfiol i ymdrin â materion yn gysylltiedig â gwiriadau'r DBS.

## **Ymgeiswyr datgelu**

- Darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gwiriadau adnabod wyneb yn wyneb ac yn brydlon.
- Datgelu'r holl wybodaeth angenrheidiol fel bo modd cyflwyno cais am ddatgeliad DBS yn brydlon.
- Datgelu'r holl wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r DBS drwy gydol ei gyflogaeth/waith i'r Cyngor.

## **Datgeliadau Ar-lein 'First Advantage'**

- Gweithredu fel Cydlofnodwr Arweiniol ar gyfer ceisiadau ar-lein y DBS
- Cynnal y system ar-lein a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych ynghylch unrhyw newidiadau cyn gweithredu.

# **Polisi'r DBS**

## **Datganiad Polisi**

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu lles y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal statudol tuag at grwpiau sy'n agored i niwed o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006) a'r gorchymyn Eithriadau ar gyfer y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1975). Mae'n rhaid cyflawni'r ddyletswydd hon gan roi sylw i ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys: Deddf Diogelu Rhyddidau (2012), Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974), Deddf Diogelu Data (1998), Cod Ymarfer y DBS a'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i reciwtio ar sail asesiad gwrthrychol a systematig o ymgeiswyr yn erbyn ffactorau'n gysylltiedig â'r swydd dan sylw. Drwy ddefnyddio arferion cyflogi teg a mabwysiadu'r polisi hwn, mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau yr ymdrinnir â'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â chofnodion troseddol yn ei chyd-destun ac yn ôl doethineb.

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r rhai sy'n ymgeisio am gyfleoedd gyda thâl neu gyfleoedd gwirfoddol o fewn y cyngor. Yn ogystal â hynny, bydd trefniadau maethu a mabwysiadu, gwaith tymhorol, gwirfoddolwyr, profiad gwaith, internaethau, graddedigion, lleoliadau dros yr haf, graddedigion, aelodau etholedig, llywodraethwyr ysgol, contractwyr, gweithwyr asiantaeth hefyd yn cael eu cynnwys o dan ddarpariaeth y polisi hwn. Mae'r polisi'n berthnasol i staff amser llawn, rhan-amser, cyflenwi/achlysuol, staff am gyfnod penodol neu dros dro, waeth faint o oriau a weithir.

Yn Ysgolion Sir Ddinbych, mae'r Llywodraethwyr a'r Penaethiaid yn gyfrifol am benodiadau ac am gynnal proses y DBS yn yr ysgol dan sylw. Dylid ystyried bod pob pob cyfeiriad at y Cyngor yn gyfeiriad at y Corff Llywodraethu os yw'r swydd wag neu'r swydd yn benodiad mewn ysgol. Drwy gydol y polisi hwn, mae darpariaethau penodol ar gyfer ysgolion wedi'u nodi'n glir.

Bydd cyngor a chefnogaeth ar gael gan yr Adran Adhoddau Dynol.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau'n berthnasol i holl gyflogion Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i staff a gyflogir gan gyrrf allanol (ee, sefydliadau yr ydym yn darparu cyllid iddynt neu'n caffael ganddynt) ar gcontract gan y cyngor, ac yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwirio aelodau etholedig, gweithwyr asiantaeth, contractwyr allanol, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr ysgol.

# Polisi'r DBS

## Paramedrau Cyfreithiol

Nid yw mynediad at wasanaeth gwirio'r DBS ond ar gael i gyflogwyr cofrestredig a chanddynt hawl gyfreithiol i ofyn i unigolyn ddatgelu ei hanes troseddol llawn, gan gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu - nid yw hyn yn cynnwys rhybuddiadau ac euogfarnau gwarchodedig a fydd yn cael eu hidlo o wiriad cofnodion troseddol - a elwir hefyd yn 'gwestiwn eithriedig'.

Yn gyfreithlon felly, ni chawn ond gofyn y 'gwestiwn eithriedig' hy, beth yw eich cofnod troseddol, ar gyfer rolau sy'n bodloni'r meini prawf.

Bydd cwestiwn eithriedig yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn gweithio mewn galwedigaethau penodol, ar gyfer rhai trwyddedau a phenodiadau penodedig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 ac fe'u disgrifir ymhellach yn adran Pwy sy'n Gymwys y polisi hwn.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y DBS ac ni fydd yn gwahaniaethu mewn modd annheg yn erbyn unrhyw un sy'n destun dystysgrif datgelu ar ôl derbyn gwybodaeth.

Mae gan y DBS daflenni canllaw hawdd eu defnyddio sy'n ateb ystod o destunau a chwestiynau ynghylch y DBS, sydd wedi'u hanelu at unigolion a chyflogwyr. Dilynwch y ddolen hon i weld y rhain yn Gymraeg neu'n Saesneg -

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-guidance-leaflets>

## Mathau o Ddatgeliadau'r DBS a Rhestrau Gwahardd

Gellir gwneud 4 math o wiriad DBS:

- **gwiriad sylfaenol**, sy'n dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol.
- **gwiriad safonol**, sy'n dangos euogfarnau wedi'u disbyddu/heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion olaf.
- **gwiriad manwl**, sy'n dangos yr un peth â'r gwiriad safonol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ym meddiant yr heddlu a ystyri'r yn berthnasol i'r rôl.

## Polisi'r DBS

- **gwiriad manwl gan gynnwys gwirio rhestrau gwahardd**, sy'n dangos yr un peth â'r gwiriad manwl yn ogystal ag a yw'r ymgeisydd ar y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag cyflawni'r rôl.

Cyfrifoldeb rheolwr yw penderfynu ar ba lefel y dylid gwirio unigolion ar gyfer pob rôl swydd. Nid oes unrhyw ofynion cymhwysol ar gyfer gwiriad sylfaenol y DBS, ond er mwyn cefnogi'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, nid yw'r Cyngor yn cynnal gwiriadau DBS sylfaenol.

Os ydych chi'n ystyried gofyn i rywun wneud cais am wiriad DBS safonol neu fanwl, rydych chi, fel rheolwr, yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod rôl y swydd yn gymwys.

Sylwch y bydd rhai cofnodion wedi'u hidlo o'r DBS ac ni fyddant felly wedi'u dangos ar dystysgrif y DBS. Ni ddylem felly ddisgwyl i gyflogelion nac ymgeiswyr ddatgelu'r wybodaeth hon inni ychwaith.

Ceir 3 math o weithlu y bydd y DBS yn berthnasol ar eu cyfer - Oedolyn, Plentyn ac Arall. Gellir hefyd gyfuno Plentyn ac Oedolyn i greu math 'Plentyn ac Oedolyn'. Mae angen dewis math o weithlu ar gyfer pob cais DBS safonol a manwl er mwyn eu prosesu. Mae'n rhaid i'r math hwn o weithlu hefyd fod yn gymwys i bob cais am wiriad DBS. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei datgelu ar y dystysgrif a bod y rhestrau gwahardd cywir yn cael eu gwirio lle bo'n berthnasol. Mae'n rhaid i wiriadau fod yn berthnasol i'r rôl a gyflawnir yn y swydd.

Mae gwiriad DBS safonol yn costio £23, gwiriad DBS manwl yn costio £40 a gwiriad DBS i wirfoddolwr yn cael ei gynnig am ddim.

## Rhestrau Gwahardd / Gweithgarwch Rheoledig

Mae'r Rhestrau Gwahardd yn cynnwys enwau pobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio mewn rôl a ddiffinnir yn Weithgarwch Rheoledig. Pan fydd rôl swydd yn cyd-fynd â'r diffiniad o Weithgarwch Rheoledig, bydd Gwiriad DBS Manwl gan gynnwys Rhestrau Gwahardd yn cael ei gynnal. Mae'n drosedd i unigolion sydd ar y Rhestr Gwahardd wneud cais am swyddi mewn Gweithgarwch Rheoledig, felly mae'n rhaid cynnal gwiriad DBS ar y lefel gywir.

# Polisi'r DBS

Ystyrir nifer o rolau yn Weithgarwch Rheoledig, a dylai rheolwyr wirio pa rolau sydd o fewn y cwmpas hwn. Gweler y canllawiau sydd wedi'u hatodi gan y DBS sy'n amlinellu pa rolau sy'n perthyn i'r categori Gweithgarwch Rheoledig, neu gallwch ddefnyddio ei wasanaeth ar-lein i wirio a yw rôl yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS, a pha fath o wiriad y dylid ei gynnal - <https://www.gov.uk/find-out-dbs-check>. Bydd y gwasanaeth hwn yn amlinellu'r math o wiriad y mae'r swydd yn gymwys ar ei gyfer, ac yn nodi a yw'r rôl hon yn perthyn i'r categori Gweithgarwch Rheoledig.

## Pwy sy'n Gymwys?

Ni ellir ond cynnal Gwiriad DBS unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn.

I fod yn gymwys i dderbyn gwiriad DBS ar y lefel **safonol** mae'n rhaid i'r swydd fod wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (DAT) 1974 (Eithriadau) 1975.

I fod yn gymwys i dderbyn gwiriad DBS **manwl**, mae'n rhaid i'r swydd fod wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau (DAT) **ac** yn Rheoliadau Deddf yr Heddlu.

I fod yn gymwys i dderbyn gwiriad DBS **manwl gan gynnwys gwirio rhestrau gwahardd**, mae'n rhaid i'r swydd fodloni'r diffiniad o Weithgarwch Rheoledig.

Gweler y canllawiau sydd wedi'u hatodi gan y DBS sy'n amlinellu pa rolau sy'n gymwys ar gyfer pob lefel wirio, neu gallwch ddefnyddio ei wasanaeth ar-lein i wirio a yw rôl yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS, a pha fath o wiriad y dylid ei gynnal - <https://www.gov.uk/find-out-dbs-check>.

Bydd pob rôl lle bydd gan gyflogion fynediad at blant ac/neu oedolion sy'n agored i niwed yn ddarostyngedig i wiriad DBS manwl, yn unol â'r mein prawf cymhwystera a amlinellir gan y DBS.

Mae'n bosibl y bydd achlysuron yn codi lle gallai grwpiau galwedigaethol fod yn destun rheoliadau am y tro cyntaf, yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth, ac y bydd disgwyl i gyflogion gydymffurfio. Gall peidio cydymffurfio arwain at gamau disgyblu.

# **Polisi'r DBS**

## **Proses Wirio'r DBS**

Cynhelir gwiriadau'r DBS drwy wasanaeth ar-lein yn bennaf yr ydym wedi'i brynu (gan 'First Advantage Online Disclosures'). Mae hynny'n golygu bod gwiriadau'n cael eu cwblhau'n llawer cynt ac yn galluogi aelodau newydd o staff i gychwyn eu rolau newydd ynghynt.

Bydd AD yn cychwyn y broses drwy nodi gwybodaeth syml ar y system ar-lein. Mae hyn yn cynnwys lefel y gwiriad. Wedyn bydd cwmni 'First Advantage Online Disclosures' yn anfon e-bost at yr unigolion ac ynddo ddolen i ffurflen gais DBS y mae'n rhaid iddynt ei llenwi. Bydd hyn yn cynnwys gofyn am fanylion personol fel enwau blaenorol, cyfeiriadau blaenorol dros y 5 mlynedd diwethaf, dyddiad geni.

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis 3 phrawf adnabod y maent am eu cyflwyno yn rhan o'r cais hwn. Bydd angen prawf adnabod i ddilysu manylion y sawl sy'n gwneud cais am wiriad DBS, er mwyn sicrhau bod y gwiriad yn cael ei gynnal ar yr unigolyn cywir.

Ar ôl llenwi'r ffurflen, bydd angen i AD weld y 3 phrawf adnabod a ddewiswyd i wirio eu bod yn ddilys, felly bydd yn rhaid i'r dogfennau adnabod fod yn fersiynau gwreiddiol yn hytrach na chopïau neu luniau. Ni cheir prosesu'r gwiriad heb i AD weld a dilysu'r dogfennau adnabod hyn.

Bydd AD wedyn yn diweddu'r ffurflen ar-lein, ac yn ei hanfon i'r DBS er mwyn cynnal y gwiriad. Ar ôl cwblhau'r gwiriad, bydd yr unigolyn yn derbyn dystysgrif yn y post. Bydd AD yn derbyn hysbysiad os yw'r dystysgrif yn glir, ac yn yr achos hwnnw, ni fydd angen i'r unigolyn ddangos ei dystysgrif inni. Fodd bynnag, os bydd datgeliad neu drosedd wedi'i rhestru ar y dystysgrif, bydd AD yn cael gwybod bod rhywbeth ar y dystysgrif ond ni fydd yn cael gwybod beth yw natur y datgeliad neu'r drosedd hwnnw/honno. Gan hynny, pan fydd trosedd neu ddatgeliad wedi'i restru ar y dystysgrif, bydd yn rhaid i'r unigolyn ddangos y dystysgrif honno i AD cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn creu copi ohoni.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd ar gyflogai angen ffurflen bapur. Os felly, bydd y ffurflen yn cael ei phostio at y cyflogai i'w llenwi. Ar hynny, dylid cyflwyno'r ffurflen honno yn y swyddfa agosaf, ynghyd â 3 phrawf adnabod i'w dilysu. Sylwch fod y broses bapur yn cymryd llawer mwy o amser na'r broses ar-lein, a dylai rheolwyr ganiatáu hyd at 8 wythnos i staff dderbyn eu dystysgrif DBS. Gan na fydd AD yn derbyn hysbysiad ar-lein, bydd angen dod â'r

# **Polisi'r DBS**

dystysgrif hon i'r swyddfa i'w dilysu, hyd yn oed os nad oes unrhyw droseddau neu ddatgeliadau arni.

Gan mai system gan Lywodraeth y DU yw proses ar-lein y DBS, nid yw'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno llenwi cais DBS yn Gymraeg gysylltu â'r adran AD i gael ffurflen bapur i'w llenwi, gan fod y ffurflenni hynny ar gael yn Gymraeg.

## **Camau Proses Wirio'r DBS**

Drwy ddefnyddio'r dull ar-lein, gall y cyflogai ac AD olrhain ffurflen gais i weld ar ba gam ym mhroses wirio'r DBS y mae'r ffurflen.

### **Cam 1 - derbyn a dilysu'r ffurflen gais**

Caiff y ffurflen gais ei gwirio rhag unrhyw wallau neu hepgoriadau. Caiff y ffurflen naill ai ei sganio i system y DBS neu ei dychwelyd i'r cydlofnodwr i'w chywiro cyn pen 24 awr ar ôl ei derbyn.

### **Cam 2 - Chwilio drwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu**

Caiff data allweddol o'r ffurflen gais eu cymharu yn erbyn manylion o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu i chwilio am unrhyw gyfatebiaeth.

### **Cam 3 - Chwilio drwy restrau gwahardd ar gyfer Plant ac Oedolion (Ile bo'n berthnasol)**

Caiff data allweddol o'r ffurflen gais eu cymharu yn erbyn rhestrau gwahardd i chwilio am unrhyw gyfatebiaeth.

### **Cam 4 - Chwilio drwy gofnodion a ddelir gan yr heddlu**

Anfonir gwiriadau manwl drwy ddulliau diogel, electronig i'r heddlu er mwyn cynnal gwiriad ychwanegol o'r cofnodion cyn dychwelyd yr wybodaeth i'r DBS. Gallai eich manylion fod yr un peth â manylion a ddelir gan unrhyw gangen o'r heddlu ar draws y wlad, neu'n debyg i'r manylion hynny. Er mwyn sicrhau na fethir unrhyw fanylion cyfatebol, bydd yr heddluoedd hynny'n gwirio'r manylion yn erbyn eu gwybodaeth.

# Polisi'r DBS

## Cam 5 - Argraffu dystysgrif y DBS

Caiff yr holl wybodaeth sydd i'w datgelu ei phrintio drwy weithdrefnau hynod ddiogel a'u postio at yr ymgeisydd. Bydd angen i'r ymgeisydd wedyn ddangos ei dystysgrif DBS i'r cyflogwr a ofynnodd am y gwiriad o gofnodion troseddol.

Ar ôl i'r dystysgrif gael ei hanfon i'r cyflogai, cyfrifoldeb y cyflogai yw'r dystysgrif honno. Ni all y Cyngor gael dystysgrif arall yn lle dystysgrif sydd wedi mynd ar goll neu wedi'i difrodi. Bydd angen i'r ymgeisydd gysylltu â'r DBS a gofyn iddo anfon dystysgrif arall os bydd hynny'n digwydd.

## Beth sy'n cael ei ddatgelu?

Mae'r DBS yn defnyddio system hidlo, sy'n golygu, yn dibynnu ar y math o DBS, na fydd rhai rhybuddiadau, ceryddon, rhybuddion, ac amodau yn cael eu datgelu, gan eu bod yn cael eu hystyried yn 'warchodedig' o dan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau 1975).

Mae hyn yn golygu nad oes angen eu datgelu i gyflogwyr, ac os ydynt yn cael eu datgelu, ni chaiff cyflogwyr eu hystyried.

Mewn gwiriad DBS Safonol a Manwl, datgelir y canlynol bob tro, waeth pa bryd y cawsant eu derbyn:

- Pob euogfarn am droseddau penodedig
- Rhybuddiadau i oedolion am droseddau penodedig
- Pob euogfarn a arweiniodd at ddedfryd o garchar

Bydd cofnodion eraill a ddatgelir yn dibynnu pryd y cafwyd y rhybuddiad neu'r euogfarn.

Datgelir y canlynol:

- Unrhyw rybuddiad i oedolyn am drosedd amhenodedig a gafwyd o fewn y 6 blynedd diwethaf
- Unrhyw euogfarn yn erbyn oedolyn am drosedd amhenodedig a gafwyd o fewn y flwyddyn ar ddeg ddiwethaf.

## Polisi'r DBS

- Unrhyw euogfarn yn erbyn unigolyn ifanc am drosedd amhenodedig a gafwyd o fewn y 5 mlynedd a hanner diwethaf

Nid oes rhaid i chi ddatgelu troseddau sydd y tu hwnt i gwmpas y rheolau uchod.

Bydd 'trosedd benodedig' bob amser yn cael ei datgelu ar dystysgrif DBS Safonol neu Fanwl, p'un a arweiniodd hynny a euogfarn neu rybuddiad i oedolyn. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr lawn o Droseddau Penodedig yma <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check>

Sylwch y gallai gwiriadau Manwl gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â rhybuddiad neu euogfarn warchodedig os yw'r heddlu o'r farn fod hynny'n berthnasol i'r gweithlu y mae'r unigolyn yn bwriadu gweithio ynddo. Mae penderfyniadau i gynnwys gwybodaeth fel hyn yn ddarostyngedig i ganllawiau statudol.

## Recriwtio a Phenodiadau

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw dystysgrifau DBS gan unrhyw gyflogwr blaenorol. Byddwn bob amser yn cynnal ein gwiriad ein hunain er mwyn sicrhau bod gennym yr wybodaeth ddiweddaraf (onid yw'r unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddar - bryd hynny bydd yn rhaid dangos copi o'r dystysgrif wreiddiol er mwyn i AD gynnal y gwiriad drwy'r Gwasanaeth Diweddar). Pan fydd cyflogai yn symud i rôl fewnol newydd, bydd gwiriad DBS newydd yn cael ei gynnal os yw'r rôl newydd yn wahanol iawn i'r rôl flaenorol, neu lle bo natur y gweithlu'n wahanol, ee, gwiriad DBS Gweithlu Plant yn symud i rôl lle mae angen gwiriad DBS Gweithlu Oedolion.

Pan fydd angen gwiriad DBS ar gyfer rôl, bydd hynny wedi'i amlinellu'n glir yn swydd-ddisgrifiad yr hysbyseb. Mae penodiadau i'r rolau hyn yn amodol ar wiriad DBS boddhaol, sy'n golygu y gall cynnig swydd gael ei dynnu'n ôl os bydd gwiriad DBS yn cynnwys gwybodaeth sy'n peri bod yr ymgeisydd yn anaddas. Gan hynny, ni fydd staff newydd yn gallu dechrau gweithio nes bo'r gwiriad hwn wedi'i gwblhau.

Dylid pennu dyddiad i unigolion ddechrau eu swydd gyda'r Cyngor sy'n galluogi dychwelyd a chlirio'r gwiriad DBS.

# Polisi'r DBS

Nid yw gwiriad DBS yn dileu'r angen am arferion recrifio cadarn, megis proses ddethol drylwyr sy'n briodol i lefel y swydd, gwirio prawf adnabod, cymwysterau, derbyn a gwirio geirdaon ac unrhyw fylchau o ran cyflogaeth.

Os ceir methiant droeon ar ran yr unigolyn i lenwi'r ffurflen DBS neu gyflwyno prawf adnabod i'w ddilysu, gallai hynny arwain at derfynu'r swydd/dynnu'r cynnig swydd yn ei ôl. Bydd y cyflogai'n cael 10 diwrnod gwaith i lenwi'r ffurflen a chyflwyno'r prawf adnabod i'w ddilysu.

## Asesiad Risg Cyn Cyflogi

Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, os nad oes modd gohirio'r penodiad, neu os ceir oedi cyn dychwelyd y gwiriad DBS, caiff y rheolwr llinell ofyn am gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth / Pennaeth / Rheolwr Gyfarwyddwr perthnasol er mwyn caniatáu i'r unigolyn ddechrau heb fod wedi derbyn y gwiriad DBS. Mae'n rhaid cwblhau Asesiad Risg Cyn Cyflogi yn yr amgylchiadau hyn, sydd hefyd yn nodi'r mesurau diogelu a weithredir er mwyn ymdrin â'r risg hon.

Mae'n rhaid gwneud trefniadau goruchwyliau priodol ac/neu addasu dyletswyddau'r unigolyn hyd nes y derbynnyr gwiriad DBS boddhaol. Yn benodol, ni chaiff aelodau o staff fod yn gyfrifol ar eu pen eu hunain am blant nac oedolion sy'n agored i niwed nes bo gwiriad DBS Manwl boddhaol wedi'i dderbyn. Dylid rhoi amlinelliad o'r mesurau hyn i aelodau eraill o staff yn ogystal â'r unigolyn, ac adolygu'r mesurau'n rheolaidd.

Os bydd unigolyn wedi derbyn gwiriad DBS ar gyfer ei rôl gyfredol o fewn y Cyngor a'i fod yn symud i swydd arall o fewn y Cyngor, bydd y gwiriad yn dderbyniol ar yr amod na cheir cynnydd sylweddol mewn cysylltiad â phlant ac/neu oedolion sy'n agored i niwed, neu gyfrifoldeb drostynt, a bod asesiad risg wedi'i gynnal.

Gweler [Ffurflen - Asesiad Risg Cyn Cyflogi](#).

## Datgelu Trosedd DBS

Ni fydd datgeliadau neu droseddau ar dystysgrif DBS o reidrwydd yn golygu na all unigolyn gael ei gyflogi. Bydd hynny'n dibynnu ar y drosedd ac ar rôl y swydd, a chyfrifoldeb pob rheolwr unigol felly fydd cynnal asesiad risg gyda'r unigolyn.

## Polisi'r DBS

Rhoddir ystyriaeth i natur o drosedd a ddatgelwyd a'r graddau y mae'n berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani. Bydd yn ofynnol i'r rheolwr reciwtio ynghyd â Chydlofnodwr Arweiniol y DBS o'r Adran Adnoddau Dynol (os oes angen) gyfweld â'r unigolyn a llenwi'r Ffurflen - Asesiad Risg Testun Pryder DBS ac asesu'r risg yn erbyn mein prawf penodedig. Bydd yn rhaid anfon y ffurflen hon at y Pennaeth Gwasanaeth, y Cyfarwyddwr, y Rheolwr Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr perthnasol i'w chymeradwyo'n derfynol.

Ar gyfer cyflogion Ysgol, bydd yn ofynnol i'r Pennaeth ac i Gadeirydd y Llywodraethwyr gynnal cyfweliad a llenwi'r Ffurflen - Asesiad Risg Testun Pryder DBS. Ar ôl asesu'r risg, byddant hwy'n penderfynu a ellir penodi'r unigolyn o hyd. Bydd yn rhaid llenwi'r ffurflen gyfweld a'i hanfon at y Pennaeth Addysg i'w chymeradwyo'n derfynol. Pennaeth y Gwasanaeth Addysg fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y Pennaeth, Llywodraethwyr neu Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Mae'n drosedd i unigolyn sydd wedi'i wahardd weithio, wneud cais i weithio neu gynnig gweithio mewn Gweithgarwch Rheoledig gyda grŵp y mae wedi'i wahardd rhag gweithio gydag ef. Y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hysbysu'r DBS os bydd ymgeisydd sydd ar y rhestr gwahardd yn ceisio gwneud cais am waith gwaharddedig o fewn y Cyngor.

## Staff Presennol - Datgelu Trosedd DBS

Os bydd cyflogion nad ydynt erioed wedi derbyn gwiriad o'r blaen, neu y mae angen eu hailwirio ar gyfer eu swydd, wedyn yn derbyn datgeliad neu drosedd wedi'i rhestru ar eu gwiriad DBS, bydd yn ofynnol iddynt gael cyfweliad gyda'u rheolwr llinell a'r Llofnodwr DBS Arweiniol. Byddant yn llenwi'r Ffurflen - Asesiad Risg Testun Pryder DBS a'i hanfon at y Pennaeth Gwasanaeth, y Cyfarwyddwr, y Rheolwr Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr perthnasol i'w chymeradwyo'n derfynol (ar gyfer Ysgolion bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal gan y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr, gyda'r Pennaeth Addysg yn llofnodi i gymeradwyo'n derfynol).

Pan fo cyflogai mewn rôl y mae angen cynnal gwiriad DBS ar ei chyfer, mae'n rhaid iddo ei reolwr ar unwaith am unrhyw newid mewn amgylchiadau yn gysylltiedig ag ymchwiliadau ac achosion troseddol, yn ogystal ag euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion. Ni chânt

## Polisi'r DBS

ddisgwyl nes iddi fod yn bryd adnewyddu'r DBS. Bydd peidio datgelu'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried yn fater disgyblu, ac ymdrinnir â hynny'n unol a gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor.

Efallai y bydd hi'n briodol symud y cyflogai dan sylw i adran lle nad oes ganddo fynediad at blant ac/neu oedolion sy'n agored i niwed, gwybodaeth, eiddo, data neu adnoddau, gan ddisgwyl canlyniad ymchwiliad llawn. Os na ellir gwneud hyn, efallai y bydd angen atal y cyflogai o'i swydd dros dro ar gyflog llawn, gan ddisgwyl canlyniad yr ymchwiliad disgyblu. Wrth lenwi'r Ffurflen - Asesiad Risg Testun Pryder DBS ystyrir a yw'r euogfarn yn berthnasol i'r swydd. Os ystyrir bod canlyniadau'r Datgeliad o natur ddifrifol, gallai'r opsiynau gynnwys:

- Terfynu'r gyflogaeth
- Adleoli - yn dibynnu a oes swydd wag addas ar gael
- Cyflwyno mesurau diogelwch

Bydd yn rhaid cynnal arfarniad llawn o'r sefyllfa, gan gynnwys y risgiau a allai fod yn gysylltiedig a'r opsiynau cyflogaeth eraill sydd ar gael, cyn diswyddo. Bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo fod yn unol â'r polisi disgyblu.

Os nad yw canlyniadau'r datgeliad yn cyfiawnhau unrhyw gamau pellach, bydd yn rhaid hysbysu'r cyflogai ynghylch hyn mewn ysgrifen.

## Gwiriadau Tramor

Dylid gwirio staff tramor yn yr un modd â'r holl staff eraill. Bydd angen i'r Cyngor gynnal y gwiriadau heddlu angenrheidiol yn unol â system gyfiawnder y wlad dan sylw a gofynion y DU.

Ni ddylai aelodau newydd o staff gychwyn eu swydd nes bo'r gwiriadau wedi'u cwblhau.

Bydd angen 'Datganiad Ymddygiad Da' ar ymgeiswyr sydd wedi gweithio neu breswylio dramor am gyfnod hwy na thri mis o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gelwir hyn hefyd yn 'Dystysgrif Enw Da'. Rhaid i Adnoddau Dynol gael gweld y dystysgrif wreiddiol cyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ei swydd.

## Polisi'r DBS

Os nad oes 'Tystysgrif Enw Da' gan yr ymgeisydd, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am y costau ar gyfer sicrhau tystysgrif o'r fath, ynghyd ag unrhyw gostau cyfieithu sy'n angenrheidiol ar gyfer hyn.

Bydd angen i eirdaon gynnwys cyfnodau mewn swydd/addysg mewn gwledydd tramor. Gofynnir hefyd i ganolwyr ddarparu unrhyw wybodaeth am euogfarnau blaenorol a byddwn yn cysylltu â'r llysgenhadaeth dramor berthnasol i gael manylion am unrhyw euogfarnau yn y wlad honno. Bydd y broses wirio cyn cyflogi yn hirach gan fod angen cynnal y gwiriadau berthnasol hyn.

## Ceisiadau Trawsryweddol

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cynnig gwasanaeth gwirio cyfrinachol ar gyfer ymgeiswyr trawsryweddol, yn unol â Deddf Cydnabod Rhywedd 2004. Gelwir hyn yn llwybr ceisiadau sensitif, ac mae'r llwybr ar gael ar gyfer gwiriadau DBS ar bob lefel - sylfaenol, safonol a manwl.

Ar y llwybr ceisiadau sensitif, caiff ymgeiswyr trawsryweddol ddewis peidio datgelu unrhyw wybodaeth am eu rhywedd neu eu henw ar eu tystysgrif DBS a allai ddatgelu eu hunaniaeth flaenorol.

Os bydd gan ymgeiswyr y gofynnir iddynt gwblhau gwiriad DBS hunaniaeth flaenorol nad ydynt am iddi gael ei datgelu i CSDd ac/neu ar eu tystysgrif DBS, dylent ffonio neu anfon e-bost at y tîm sy'n ymdrin yn benodol â cheisiadau sensitif cyn cyflwyno eu cais. Mae gan y tîm brofiad o ymdrin ag achosion sensitif, a bydd yn eu cynghori ynghylch y broses a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud.

I gysylltu â'r tîm ceisiadau sensitif, ffoniwch 0151 676 1452 neu anfon e-bost i [sensitive@dbs.gov.uk](mailto:sensitive@dbs.gov.uk). Sylwch fod gan y rhif ffôn hefyd beiriant ateb ar gyfer galwadau y tu allan i oriau, lle gall unigolion adael eu manylion er mwyn i aelod o'r tîm eu ffonio'n ôl.

Does dim angen i rai sy'n fodlon datgelu eu hunaniaeth flaenorol ar eu tystysgrif gysylltu â'r tîm ceisiadau sensitif. Gallant gyflwyno'r wybodaeth hon yn symaith yn yr adran 'unrhyw enwau eraill' wrth wneud cais.

## **Polisi'r DBS**

Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth gwirio cyfrinachol yn dal i lenwi'r unffurflen gais â phob ymgeisydd arall.

Ni ddatgelir enw / rhywedd blaenorol ymgeiswyr sydd wedi derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd, a chanddynt droseddau / datgeliadau ar eu tystysgrif DBS. Bydd y cofnodion yn cael eu diweddar i adlewyrchu enw / rhywedd cyfredol yr unigolyn waeth pryd y cyflawnwyd y drosedd.

Hyd yn oes os nad yw ymgeiswyr wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd, dylent barhau i gysylltu â thîm sensitif y DBS, oherwydd os nad oes gan yr unigolyn unrhyw wybodaeth droseddol gall y DBS hepgor enwau / rhywedd blaenorol fel nad ydynt yn ymddangos ar dystysgrif. Os bydd y gwiriad DBS yn datgelu gwybodaeth mewn rhywedd / enw blaenorol, bydd y DBS yn cysylltu cyn anfon y dystysgrif.

## **Ailwirio**

Ar gyfer pob swydd lle y mae angen cynnal gwiriad DBS, bydd y Cyngor yn mynnu bod pob deiliyd swydd yn cael ei ailwirio bob pedair blynedd. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Gwaith Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, mae'n bosibl y bydd angen cael gwiriad DBS bob tair blynedd ar gyfer rhai rolau er mwyn bodloni'r gofynion cofrestru. Bydd pob Llywodraethwr yn cael ei wirio wrth gael ei benodi, a'i ailwirio bob pedair blynedd.

Os bydd gweithredoedd unigolyn yn destun pryder, bydd gan y Cyngor hawl i gynnal gwiriad newydd ynghynt na'r terfynau amser uchod.

# **Polisi'r DBS**

## **Gwasanaeth Diweddaru**

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn galluogi'r unigolyn i ddewis cael diweddaru ei Dystysgrif DBS a mynd â hi o'r naill rôl i'r llall (o fewn yr un gweithlu) lle bo angen gwiriad ar yr un lefel ac o'r un math. Y ffi bresennol am y gwasanaeth yw £13 y flwyddyn i bob ymgeisydd (ond mae'r gwasanaeth ar gael am ddim i wifoddolwyr), a'r unigolyn sy'n talu'r pris hwnnw. Prif bwrvpas y Gwasanaeth Diweddaru yw ei gwneud hi'n bosibl cynnal gwiriadau cyflymach. Os yw'r unigolyn wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru gall yr Adnoddau Dynol, gyda chaniatâd yr unigolyn hwnnw, wirio ar-lein a gweld tystysgrif DBS gyfredol y cyflogai; ar yr amod ei bod yn cyd-fynd âr holl amodau. Bydd y gwiriad statws ar-lein yn nodi a oes unrhyw wybodaeth newydd/neu newidiadau wedi digwydd ers cyflwyno'r dystysgrif DBS.

Os bydd staff neu ymgeiswyr wedi ymuno â Gwasanaeth Diweddaru'r DBS ac yn fodlon i gynnal y gwiriad hwn, dylech hysbysu AD ynghylch hyn a gadael i AD weld eich tystysgrif wreiddiol.

## **Diogelu Data**

Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi sy'n ennyn ymddiriedaeth, mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y DBS ynghylch trin, defnyddio storio, cadw a gwaredu gwybodaeth yn gysylltiedig â Datgeliadau yn y modd cywir. Mae'r Cyngor hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan y RhDDC a'r Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth arall berthnasol sy'n ymwneud â thrin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth yn gysylltiedig â Datgeliadau yn ddiogel.

Dylai unigolion sy'n cyflwyno eu gwybodaeth ar gyfer gwiriad DBS sicrhau eu bod wedi darllen a deall Polisi Preifatrwydd y DBS cyn cyflwyno eu ffurflen.

Yn rhan o broses wirio'r DBS, bydd angen i ymgeiswyr lenwi ffurflen ganiatâd sy'n galluogi'r Cyngor i gynnal y gwiriad hwn a gweld y canlyniadau.

# Polisi'r DBS

## Gwiriadau DBS ar gyfer rhai nad ydynt yn gyflogiion

### Gwirfoddolwyr

Cynigir gwiriadau ar gyfer gwirfoddolwyr yn rhad ac am ddim ar yr amod eu bod yn bodloni meinu prawf gwirfoddolwr:

"gwirfoddolwr yw rhywun sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n golygu treulio amser, yn ddi-dâl (heblaw am gostau teithio a threuliau eraill sydd wedi'u cymeradwyo) gan wneud rhywbeth er lles rhywun (unigolion neu grwpiau) heblaw neu'n ogystal â pherthnasau agos."

Nid yw'r diffiniad hwn o wirfoddolwr yn cynnwys unrhyw un a allai elwa, neu a allai ddisgwyl elwa ar dâl neu gredyd tuag at gymhwyster. Er enghraifft, nid yw myfyrwyr ar leoliad hyfforddi, a rhieni/gofalwyr maeth felly'n wirfoddolwyr, ac mae'n rhaid iddynt dalu am eu gwiriadau.

Bydd yr un rheolau'n berthnasol o ran lefel y gwiriad a gynhelir. Gweler Pwy sy'n gymwys? a Mathau o Ddatgeliadau DBS a Rhestrau Gwahardd

Gallai enghreiffiau o waith gwirfoddol gynnwys internaeth, rhywun ar brofiad gwaith, rhywun sy'n rhoi help llaw yn y dosbarth neu rywun sy'n hebrwng plant ar deithiau ysgol, neu rywun sy'n helpu oedolyn sy'n agored i niwed i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Os nad yw gwirfoddolwr wedi gorfol cael datgeliad DBS gan nad yw'n dod i gysylltiad mynch â phlant ac/neu oedolion sy'n agored i niwed, ni ddylid mewn unrhyw amgylchiadau ei adael gyda phlant ac/neu oedolion sy'n agored i niwed heb oruchwyliaeth.

### Gweithwyr asiantaeth

I ddibenion y polisi hwn, mae'r adran hon yn cyfeirio at yr aelodau hynny o staff a gyflogir drwy Matrix neu asiantaethau staff dros dro, gan gynnwys rhai sydd ar gontact i ddarparu gofal ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gyfreithiol, yr asiantaeth yw cyflogwr unrhyw weithiwr asiantaeth, a chyfrifoldeb yr asiantaeth, fel y cyflogwr, yw sicrhau bod y gwiriadau DBS gofynnol yn cael eu cynnal. Mae'r asiantaeth hefyd yn gyfrifol am y gost o gynnal unrhyw wiriadau DBS gofynnol.

# Polisi'r DBS

Er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn, ni fydd y Cyngor ond yn cyflogi gweithwyr asiantaeth sydd wedi derbyn yr un gwiriadau â'r rhai a fyddai'n cael ei cynnal wrth recriwtio i'r Cyngor.

Dylai rheolwyr recriwtio sicrhau bod gan unrhyw weithwyr asiantaeth a ddefnyddir ganddynt wiriad DBS priodol cyn ystyried eu defnyddio ar gyfer unrhyw fath o waith o fewn y Cyngor.

Dylai'r rheolwr recriwtio ofyn am gopi o dystysgrif DBS y gweithwyr asiantaeth, ynghyd â phrawf adnabod i'w dilysu. Gyda cydsyniad y gweithiwr asiantaeth, bydd yn rhaid i'r rheolwr gadw copi o'r dystysgrif DBS, a chopi o'i brawf adnabod gan gofnodi'r dyddiad pan y'u derbyniwyd.

Os yw'r asiantaeth Recriwtio/Tempo yn dymuno argymhell unigolyn â chofnod troseddol i weithio gyda phlant neu grwpiau sy'n agored i niwed, bydd yn rhaid trafod y materion gyda'r rheolwr recriwtio, a bydd yr un meinu prawf ar gyfer penderfyniadau yn berthnasol â'r meinu prawf a fyddai'n cael eu defnyddio wrth gyflogi'n fewnol.

Bydd asiantaethau ar gontact gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gofal fel arfer yn destun rheoliadau'r Ddeddf Safonau Gofal ac yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Gan hynny, mae'n ofynnol iddynt gynnal gwiriadau DBS ar staff. Bydd yn ofynnol unrhyw asiantaeth sy'n darparu math o ofal nad yw wedi'i reoleiddio gyflwyno tystiolaeth i'r rheolwr recriwtio i ddangos bod gwiriadau DBS Manwl wedi'u cynnal ar y staff.

Dylai lefel datgeliadau gweithwyr asiantaeth fod yn gyfwerth â lefel y datgeliad a fyddai'n cael ei gymhwysyo i swydd fewnol o natur debyg.

## Aelodau (Cynghorwyr) Cyngor Sir Ddinbych

Bydd yn ofynnol i'r Aelodau a ganlyn gynnal gwiriad DBS:

- Aelod o'r Cabinet
- Holl aelodau'r Pwyllgorau Craffu
- Aelod o'r Panel Maethu
- Aelod o'r Panel Mabwysiadu

## Polisi'r DBS

- Aelod o'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol

Dylid cynnal gwiriadau DBS ar Aelodau cymwys yn dilyn etholiadau'r cyngor sir, ac ar yr aelodau perthnasol yn dilyn is-etholiadau ac unrhyw newid yng nghyfansoddiad y Cabinet, pwylgorau, paneli ac ati.

Nid yw cyngorwyr nad ydynt wedi derbyn gwiriad DBS yn gymwys i ddal unrhyw un o'r swyddi uchod nac i gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau dynodedig. Ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar rôl Cynghorydd fel cynrychiolydd grwpiau sy'n agored i niwed.

Bydd angen gwiriad DBS manwl ar gyfer unrhyw Aelod newydd o'r pwylgorau uchod yn ystod tri mis cyntaf ei swydd.

Y tro cyntaf wrth hysbysu ynghylch etholiadau, ac mewn pecynnau gwybodaeth, mynegir yn glir wrth unigolion a gaiff eu hethol ar CSDd y bydd yn rhaid iddynt dderbyn gwiriad DBS manwl.

Mae rhai unigolion wedi'u gwahardd rhag sefyll mewn etholiadau yn ôl rheolau cyfredol. Dyma'r prif resymau dros wahardd:

- ar ôl cael dedfryd o garchar (boed y ddedfryd honno wedi'i gohirio ai peidio) o 3 mis neu fwy, heb ddewis i dalu dirwy yn ystod y pum mlynedd cyn yr etholiadau, a,
- cael eich gwahardd o dan unrhyw ddeddfiad yn gysylltiedig ag arferion llwgr neu anghyfreithlon.

Gall y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd) ymyrryd a dylanwadu ar ymglymiad Aelodau ym mhob pwylgor, ac ar y cyfrifoldebau sydd ganddynt. Os bydd datgeliad neu wybodaeth arall yn golygu bod angen addasu ymglymiad neu gyfrifoldebau Aelod, bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn hysbysu'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ynghylch hynny ac yn cytuno ar yr addasiadau â'r Aelod dan sylw.

# **Polisi'r DBS**

## **Llywodraethwyr Ysgol**

Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal gwiriadau cyn-penodi ar gyfer llywodraethwyr sydd newydd eu penodi, sy'n cael eu hail-benodi, sydd newydd eu hethol, neu wedi'u hail-ethol. Fodd bynnag, er budd diogelu, mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Llywodraethwr Ysgol dderbyn gwiriad DBS manwl yn ystod tri mis cyntaf eu swydd. Dim ond Llywodraethwyr sydd wedi cael eu gwirio'n fodhaol fydd yn cyflawni rhai dyletswyddau mewn ardaloedd a ddefnyddir gan blant yn ystod oriau ysgol. Os datgelir cofnod troseddol yn sgil y gwiriad DBS, y Pennaeth Addysg fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch a gaiff Llywodraethwr / Cadeirydd Llywodraethwr barhau yn ei rôl.

## **Lleoliadau**

Ar gyfer lleoliadau athrawon a gweithwyr cymdeithasol, mae'n ofynnol i'r unigolyn ddangos ei dystysgrif DBS wreiddiol i'w reolwr llinell/i'r Pennaeth cyn dechrau ei lleoliad (gall y gwiriad DBS fod yn wiriad a gynhaliwyd gan y coleg neu'r Brifysgol cyn dechrau'r lleoliad). Os bydd y dystysgrif DBS yn dangos bod gan yr unigolyn drosedd neu ddatgeliad, dylid cynnal y weithdrefn gyfweld arferol fel y manylir uchod, a phenderfynu a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y lleoliad ai peidio. Gweler Datgelu Trosedd DBS.

Ni cheir cychwyn lleoliadau nes bo'r dystysgrif DBS wreiddiol wedi'i dilysu gan y rheolwr / Pennaeth.

## **Contractwyr Preifat - Gan gynnwys 'Contractwyr Achlysurol'**

Yn y pen draw, cyfrifoldeb y Pennaeth neu'r rheolwr yw sicrhau bod pob contractwr ac ymwelydd â'r safle naill ai'n derbyn gwiriad DBS priodol, neu fod asesiad risg priodol wedi'i gynnal er mwyn sicrhau y gall weithio ar y safle.

Yn gyfreithiol, y sefydliad sy'n darparu'r contractwr yw cyflogwr unrhyw contractwyr, a chyfrifoldeb y sefydliad yw cynnal y gwiriad DBS perthnasol.

Bydd contractwr allanol yn cynnwys sefydliadau y mae'r Cyngor yn rhoi cyllid iddynt, neu'n caffael ganddynt (ee, Scala). Mae enghreifftiau o gcontractau o'r fath yn cynnwys darparu

## **Polisi'r DBS**

cludiant i blant ac oedolion agored i niwed, arlwyd, glanhau neu hyfforddwyr crefft sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Wrth asesu risg contractau gyda chontractwyr sy'n darparu gwaith adeiladu, cynnal a chadw neu beirianneg, mae'n rhaid ystyried diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Pan fydd y contractwr yn gweithio mewn ysgol yn ystod y tymor ysgol, dylai rheolwyr/Penaethiaid geisio trefnu i'r gwaith gael ei gynnal heb gysylltiad rheolaidd â phlant. Os nad yw hyn yn bosibl, a bod y gweithwyr a gyflogir drwy'r contract yn debygol o ddod i gysylltiad â phlant heb oruchwyliaeth, mae'n rhaid i'r contractwr roi enwau a manylion y cyflogeion a'r is-contractwyr fel bo modd i'r Adran Adnoddau Dynol gynnal gwiriad o'r Rhestr Gwahardd er mwyn eithrio unrhyw un sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant.

Yn achos contractau o'r fath yng nghartrefi oedolion sy'n agored i niwed, lle na fydd y contractwr yn cael ei oruchwyllo o gwbl, bydd yn rhaid i'r swyddog contractau gynnal hapwiriadau. Pan geir contract rheolaidd ag oedolion sy'n agored i niwed, bydd yn rhaid i'r contractwr ddarparu enwau a manylion gweithwyr ac is-contractwyr fel bo modd i'r Adran Adnoddau Dynol gynnal gwiriad o'r Rhestr Gwahardd er mwyn eithrio unrhyw un a allai achosi risg i oedolion sy'n agored i niwed.

## **Gyrwyr Tacsi**

Mae'n rhaid i bob gyrrwr tacsi a cherbyd hurio preifat dderbyn gwiriad DBS manwl. Gall awdurdodau sy'n rhoi trwyddedau hefyd wirio a oes unrhyw un sy'n ymgeisio am drwydded wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

## **Dosbarthu Nwyddau i Sefydliadau'r Cyngor**

Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau eraill sicrhau bod yr holl risgiau wedi'u rheoli'n effeithiol ac y bydd y dull o ddosbarthu nwyddau wedi'i reoli. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd o ardaloedd cyfyngedig, danfoniadau drwy drefnu apwyntiad yn unig, symudiadau wedi'u rheoli gan amser (ee, peidio cael croesi'r iard chwarae tra bo'r plant yn ei defnyddio), gweithdrefnau llofnodi i mewn ac allan a hebrwng drwy ardaloedd lle gallai gyrwyr dosbarthu gael mynediad uniongyrchol at blant neu oedolion sy'n agored i niwed.

# **Polisi'r DBS**

## **Diwylliant Diogelu**

Ni all hyd yn oed y broses ddethol fwyaf gofalus ganfod pawb sy'n peri risg i blant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gan hynny, dylai rheolwyr a gweithwyr fod yn effro i ymddygiad amhriodol bob amser. Dylid rhoi'r pwyslais ar greu diwylliant sy'n rhoi hyder a mecanweithiau i'r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy allu mynegi pryder. Mae gan bob cyflogai ddyletswydd i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed sydd yn ein gofal, felly mae cyfrifoldeb ar bawb i godi unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad neu agwedd a allai fod yn destun pryder o ran diogelu.

Os oes gan staff unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad cydweithiwr, gofynnir ichi naill ai godi hyn gyda Swyddog Diogelu Dynodedig eich Gwasanaeth, neu gysylltu â'r canlynol:

- Y Porth - 01824 712200 (9 am-5pm yn ystod yr wythnos)
- Un Pwynt Mynediad - 0300 456 1000 (9am-5pm o Ddydd Llun i Ddydd Gwener)
- Y Porth ac Un Pwynt Mynediad gyda'r nos ac ar benwythnosau - 0345 053 3116

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unigolyn i sylw'r DBS os yw wedi cael ei wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch rheoledig neu wedi'i dynnu o'r gweithgarwch hwnnw (neu os yw hynny'n rhywbeth a fyddai wedi digwydd pe na bai'r unigolyn wedi gadael ohono ei hun) am ei fod wedi niweidio neu achosi risg o niwed i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.